

CYNGOR GWYNEDD GWYNEDD COUNCIL

Cofnodion drafft o'r 11^{eg} cyfarfod o Grŵp Cyswllt ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ar Ionawr 30ain, (yn dechrau am 7 p.m.) ym Mhlas Tan y Bwlch Maentwrog.

Presennol:

Ian Roberts	Amaeth a Physgota
Andy Hall	Canolfan Awyr Agored Arthog
Andy Jeffery	'Outward Bound Wales'
Alf Bowen	Partneriaeth Aberdyfi
Bill Bracewell	Partneriaeth Aberdyfi
Mike Thrussell	Pysgota Hamdden
Gruff Jones	Cadwch Cymru'n Daclus
Mike Bowyer	Archaeoleg
Rowland Sharp	Diddordeb personol
Ingrid Iredale	Pwyllgor Pysgodfeydd Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru (PPMGOaGC)
Alison Hargrave	Swyddog ACA
Lucy Kay	Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
Rod Gritten	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Tony Andrews	Dŵr Cymru (DC)
Barry Davies	Cyngor Gwynedd (CG)
Cyng. Caerwyn Robert	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Ceri Morris	Cydlynnydd Prosiect o Dan y Môr a'i Donnau

Cyflwyniad

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Caerwyn Roberts. Gan fod nifer o wynebau newydd, cyflwynodd pawb eu hunain.

1. Ymddiheuriadau:

Greta Hughes	Cyngor Cymuned
Gwynedd Watkin	Amaeth
Cyng Ray Quant	Cynghorydd
Liz Allen	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)
David Archer	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

2.1 Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir.

3. Materion yn codi

- 3.1 Eitem 3.4 (Alison i roi diweddariad i'r grŵp ar y gwahanol is-grwpiau a ffurfiwyd er mwyn mynd i'r afael a rhai materion penodol): Eglurodd Alison bod dau is-grŵp wedi eu ffurfio er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a rhith bysgota gan gewyll cimychiaid.

Cewyll cimychiaid a rhith bysgota:

Eglurodd Alison bod ymchwil ar y gweill ar ymarferoldeb a'r defnydd o glipiau pydradwy. Cafodd posteri eu gosod yn y marinas lleol yn dangos lled leoliad cewyll

cimychiaid o gwmpas Llŷn. Anfonwyd y posteri hyn allan i berchennog pob cwch pŵer sy'n cael ei gofrestru gyda Chyngor Gwynedd.

Newid yn yr Hinsawdd :

Eglurodd Alison bod ymchwil ar droed yn Labordai 'Proudman Oceanographic' yn Lerpwl ar newid yn yr hinsawdd a bod y meidrydd llanw yng Nghaergybi yn cael ei ddefnyddio yn yr ymchwil hwn. Mae'r is-grŵp yn edrych ar bolisi'r Cyngor ynglŷn â newid yn yr hinsawdd a hefyd edrych ar yr hyn mae pobl eraill yn ei wneud mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd. Ychwanegodd Lucy bod y Gymdeithas Gwarchod Forol wedi rhoi'r cyflwyniad o'r seminar diweddar ar y newid yn yr hinsawdd ar CD. Gofynnodd aelod o'r grŵp os byddai'r rhestr ar newid yn yr hinsawdd yn medru cael ei hanfon allan i'r holl grŵp.

GWEITHRED: Alison i roi diweddariad i'r grŵp ar y gwahanol is-grwpiau a sefydlwyd er mwyn mynd i'r afael â rhai materion penodol ac i anfon gweithrediadau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd allan i'r holl grŵp.

- 3.2 Eitem 3.5 (Alison i weld os bydd yn bosibl i gael cyflwyniad yn y cyfarfod o'r Grŵp Cyswllt yn y dyfodol ac a fyddai yn cael derbyniad da. Alison i anfon allan copïau o grynoded o'r cyflwyniad pan fydd wedi ei gwblhau): Rhoddodd Rod Gritten gyflwyniad yn y cyfarfod . Nid yw'r nodiadau ynglŷn â'r cyflwyniad ar gael eto.

Cwblhawyd y weithred.

- 3.3 Eitem 4.2 (Alison i ddiweddarau'r grŵp ar gynnydd prosiect codi ymwybyddiaeth Interreg IIIA): Roedd hwn ar y rhaglen.

GWEITHRED: Alison i roi diweddariad i'r grŵp ar gynnydd prosiect codi ymwybyddiaeth Interreg IIIA.

- 3.4 Eitem 4.3 (y Grŵp Cyswllt i anfon llythyr i AA ynglŷn ag ariannu swydd y Swyddog ACA): Ni thrafodwyd yr eitem hon yn y cyfarfod.

GWEITHRED: Y Grŵp Cyswllt i ysgrifennu llythyr at AA ynglŷn ag ariannu swydd y swyddog ACA.

4. Diweddariad ar brosiect Interreg –‘O Dan y Môr a'i Donnau’

Rhoddodd Alison ddiweddariad ar y prosiect.

- 4.1 Mae CG wedi sicrhau arian gan Interreg IIIA ac arian cyfatebol gan CG ar gyfer prosiect codi ymwybyddiaeth a elwir yn 'o Dan y Môr a'i Donnau'. Sefydlwyd y prosiect er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag ACA PLAS a bydd yn parhau hyd fis Mehefin 2008. Bydd y prosiect yn cynnwys deg o is-brosiectau fel â ganlyn:

- Arolwg o'r gynulleidfa
- Prosiect Theatr
- Prosiect celfyddyd â phlant /grwpiau ieuenctid
- 'Roadshow' symudol
- Cyflwyniad Fideo / Clyweled
- Panelau Dehongli
- Poster
- Taflennau
- Arfarniad
- Seminar ar ddiwedd y prosiect

Cyflwynwyd Ceri Morris, sydd wedi ei hapwyntio fel cydlynnydd y prosiect, gan Alison.

- 4.2 Gofynnodd Alison os oedd unrhyw aelod arall o'r Grŵp Cyswllt yn dymuno bod ar y grŵp llywio ar gyfer y prosiect hwn y dylent roi gwybod iddi hi.

GWEITHRED: Aelodau o'r Grŵp Cyswllt sy'n dymuno bod ar y grŵp llywio ar gyfer prosiect O Dan y Môr a'i Donnau i gysylltu ag Alison.

5. **Cyflwyniad byr ac adolygiad o sut y gweithredwyd yr amserlen rhwng Tachwedd 2004- Mawrth 2006**

5.1 **Gwybodaeth Gefndirol**

Rhoddodd Alison hanes byr o reolaeth yr ACA. Eglurodd bod grŵp yr Awdurdodau Perthnasol (AP) wedi cael ei ffurfio fel bod pob un oedd yn gyfrifol am reoli'r safle yn medru cyfarfod a thrafod opsiynau rheoli. Penderfynwyd mai'r ffordd orau i symud ymlaen oedd cael cynllun rheoli er mwyn rheoli'r safle. Mae Rheoliadau Cynefinoedd yn datgan fod ymrwymiad y cyhoedd yn hanfodol, felly penderfynodd grŵp yr AP i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ynglŷn â'r safle a'i reolaeth. Canlyniad hyn oedd y Grŵp Cyswllt. Mae'r Grŵp Cyswllt yn cynnwys cynrychiolaeth o nifer o grwpiau sydd â diddordeb o gwmpas y safle. Ar y cyd, ysgrifennodd grŵp yr AP a'r Grŵp Cyswllt y cynllun rheoli ar gyfer y safle. Allan o hyn deeth rhestr o weithrediadau y dylid eu cyflawni er mwyn cynorthwyo i warchod y safle. Rhoddwyd hwy mewn dogfen ar wahân er mwyn ei wneud yn haws i'w ddefnyddio. Fe wnaethom ddiweddu i fyny gyda 114 gweithred, felly byddai yn amhosibl eu cyflawni ar yr un pryd. Penderfynwyd bod angen rhaglen waith, felly blaenoriaethwyd y gweithrediadau a rhoddwyd y rhai brys yn y rhaglen waith. Mae'r rhaglen waith bresennol yn rhedeg o fis Tachwedd 2004 hyd fis Mawrth 2006. Rhoddir diweddariad bob chwe mis ar y ffordd y gweithredir y rhaglen waith.

5.2 **Arolwg/Diweddariad**

Aeth Alison yn fras drwy'r diweddariad anfonwyd allan diwethaf ar weithredu'r rhaglen waith (anfonwyd allan ym mis Hydref 2005). Eglurodd bod y gweithrediadau wedi cael eu rhannu i dri chategori:

- 1) Gweithrediadau gyda phwynt terfynol (h.y. gweithrediadau y gellid eu cwblhau)
- 2) Gweithrediadau anstatudol parhaus (h.y. gweithrediadau sydd ar y gweill ond na fydd yr awdurdod yn ymgymryd â hwy fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd)
- 3) Gweithrediadau statudol parhaus (h.y. gweithrediadau sydd ar y gweill ond bydd yr awdurdod yn eu cyflawni beth bynnag)

Mae pob gweithred wedi cael ei thorri i lawr i dargedau manwl er mwyn medru ei gweithredu yn haws. Mae 71% o'r targedau o'r gweithrediadau gyda phwynt terfynol wedi cael eu cwblhau. Mae'r gweithrediadau parhaus ar y gweill ond maent yn anodd eu mesur gan fod eu hanghenion yn barhaus o ran natur. Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r gweithrediadau/ targedau, a fyddech cystal â chyfeirio at ddiweddariad mis Hydref 2005.

5.3 **Canlyniadau cyfarfod yr Awdurdodau Perthnasol –ydych chi'n cytuno?**

Eglurodd Alison yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r AP a gynhaliwyd ar Ionawr 23ain, 2006 a gofynnodd i'r Grŵp Cyswllt os oeddynt yn cytuno â'r

penderfyniad. Mae'r rhaglen waith bresennol yn diweddu ym mis Mawrth 2006. Er mwyn cynhyrchu'r rhaglen waith hon, blaenoriaethwyd y gwaith oedd heb ei gyflawni yn y Cynllun Gweithredu gan aelodau'r AP a'r Grŵp Cyswllt, a rhoddwyd y gweithrediadau â'r flaenoriaeth flaenaf yn y rhaglen waith. Cytunodd yr AP yn eu cyfarfod diwethaf mai'r weithred â'r flaenoriaeth bennaf ar gyfer mis Mawrth 2006-2008 yw diweddarau'r cynllun rheoli h.y. ychwanegu'r nodweddion cadwraeth newydd a diweddarau'r gweddill. Cytunwyd y byddai unrhyw weithrediadau oedd heb gael eu cwblhau yn y rhaglen waith bresennol hefyd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen waith nesaf.

Trafododd y grŵp yr uchod a chytunwyd bod angen gweld rhestr o'r gweithrediadau eto cyn dod i benderfyniad.

GWEITHRED: Alison i anfon allan rhestr o'r gweithrediadau i'r grŵp h.y. Cynllun Gweithredu

GWEITHRED: Y Grŵp Cyswllt i benderfynu os ydynt yn cytuno â chanlyniadau'r cyfarfod AP neu beidio.

5.4 Dyfodol y Grŵp Cyswllt mewn perthynas â hyn.

Eglurodd Alison eu bod wedi trafod gyda rhai aelodau o'r grŵp a'u bod hwy wedi mynegi pryder am ddyfodol y grŵp a'i bwrpas. Nod yr eitem hon ar y rhaglen oedd darganfod barn y grŵp ynglŷn â hyn a gweld sut y buasent yn dymuno i'r grŵp weithredu. Gofynnwyd i'r Grŵp Cyswllt i drafod hyn mewn grwpiau o dri. Gwnaed y datganiadau â ganlyn yn y trafodaethau:

- Dylid cadw at y ddau gyfarfod blynyddol. Maent yn bwysig er mwyn cael trosolwg o'r hyn sy'n digwydd ar draws y safle. Crybwyllwyd hefyd y dylai niferoedd y cyfarfodydd o'r grŵp Cyswllt fod yr un faint â nifer cyfarfodydd yr AP.
- Creu ychwaneg o is-grwpiau ar gyfer materion penodol sy'n peri pryder.
- Cael aelodau yn lle'r rhai a gollwyd drwy gyfrwng y dull a gytunwyd h.y. y dylai'r aelod sy'n sefyll i lawr enwebu olynnydd; pe na fydd hyn yn bosibl, yna dylai'r Grŵp Cyswllt, yr AP neu'r Swyddog ACA gael rhywun yn ei le/lle.
- Dylai perchnogaeth y grŵp fod gyda'r grŵp felly dylai unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud gan y grŵp.
- Awgrymodd rhai y byddai cyfarfod blynyddol yn gwneud y tro, a byddai cyfathrebu wedyn drwy e-bost neu *mail-talk* yn ddull mwy effeithiol er mwyn trafod pynciau penodol. Nodwyd yma nad oedd gan bob aelod fynediad i'r rhyngwrwyd felly nid oedd yn ddull teg o gyfathrebu gan y byddai hyn yn gwahaniaethu.
- Awgrymwyd y byddai'n bosibl cynnal y cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau. Mae hyn yn fater anodd gan fod y safle mor eang.
- Trafodwyd y ffordd i gynnwys y cyhoedd. Awgrymwyd y dylid ystyried yr hyn â ganlyn; y wefan, ysgolion, byrddau arddangos. Cytunwyd bod hyn yn fater pwysig Cytunwyd hefyd y dylid gwneud defnydd o'r gwefannau presennol. Cytunodd Alison ac ychwanegodd bod hyn eisoes wedi ei drafod ond gellid ei ehangu a bydd prosiect O Dan y Môr a'i Donnau yn cynnwys llawer o hyn.
- Awgrymwyd y gellid rhoi cyflwyniadau i bwyllgorau harbyrau.
- Awgrymwyd hefyd y dylid cael mwy o gyflwyniadau ynglŷn â materion lleol.

TORIAD O 10 MUNUD

Gofynnwyd i aelodau nodi eitemau a bryderwyd amdanynt neu a oedd o ddiddordeb ar siart troi er mwyn eu trafod yn eitem 7 ar y rhaglen

6. Cyflwyniad gan Rod Gritten ar newid yn yr hinsawdd

Cwestiynau:

- Q: Nodwyd gan Mike Thrussell nad yw gwyddonwyr yn cytuno â'i gilydd felly mae yn anodd i'r cyhoedd wneud eu meddyliau i fyny.
- A: Dywedodd Rod Gritten mai'r duedd gyffredinol yw bod y tymheredd yn cynyddu ac nid oes neb yn gwrthdweud hyn. Mae hefyd yn amlwg ei fod yn cynyddu ar gyfradd fwy cyflym nag erioed o'r blaen mewn hanes. Mae lefelau presennol CO₂ yn enfawr ac yn uwch na'r lefelau a ragwelwyd yn barod.
- Q: Crybwyllodd Mike Thrussell bod cyflenwad pysgod yn newid yn sydyn iawn e.e. dros gyfnod o ddwy flynedd. Er hynny, mae pysgod dyfroedd oer yn dychwelyd. Mae ef mewn penbleth.
- A: Dywedodd Rod Gritten nad yw'r wyddoniaeth yn hollol gywir. Mae yn rhaid cymryd tueddiadau cyffredinol yn hytrach nag edrych ar y manylder h.y. mae'n rhaid edrych ar y sefyllfa i gyd. Mae'r tymheredd yn amrywio o fis i fis ac o flwyddyn i fwydyn. Efallai y bydd cyfnod pan fydd y tymheredd yn gostwng a bydd natur yn medru addasu yn ôl y galw. Er hynny, y duedd gyffredinol wrth edrych ar y data am gannoedd o flynyddoedd yw ei fod yn codi. Mae rhewlifoedd yn toddi. Mae'r gyfradd mae hyn yn cymryd yn ein dychryn.
- Q: Crybwyllodd Mike Bowyer bod Rod Gritten wedi dangos codiad o 1m yn lefel y môr yn ei gyflwyniad. Yna eglurodd mai nid yn unig codiad yn lefel y môr yw'r broblem ond cyfuniad o godiad yn lefel y môr a digwyddiadau stormus. Byddai codiad o 1m ynghyd â thywydd garw yn ddigon i olchi twyni tywod i ffwrdd.

Nodwyd hefyd bod y coed oedd wedi eu plannu o gwmpas yr aberoedd yn amsugno dŵr ac yn rhwystro llifogydd rhag mynd i'r aber. Er hynny, mae yn golygu bod y dyddodiad fyddai'n arferol yn cael ei olchi i ffwrdd gan rym y dŵr yn dod i mewn i'r aber yn aros yn yr aber ac yn newid dynameg aberoedd.

7. Unrhyw fater o bryder neu ddiddordeb

7.1 Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd – Alison Hargrave

Eglurodd Alison yn fyr fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn arian er mwyn ymgymryd â gweithredu rhai o'r gweithrediadau a gynhwysir o fewn eu cynllun gweithredu bioamrywiaeth leol a elwir yn Natur Gwynedd. Gellir rhoi grantiau i grwpiau neu unigolion sy'n dymuno ymgymryd â gwaith fyddai yn cynorthwyo unrhyw gynefin neu rywogaeth a restrir yn eu cynllun. Cynnwys hyn brosiectau codi ymwybyddiaeth. Dosbarthwyd taflenni gan Alison oedd yn egluro'r prosiect a hefyd restr o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrwyd yn Natur Gwynedd. Dywedodd os oedd unrhyw un â

phrosiect dan sylw fyddai'n medru cyplysu â hyn i gysylltu â Haydn Hughes, manylion cyswllt ar y daflen.

7.2 Casglu Sgolopiau ym Mae Tremadog -Ian Roberts

Gofynnodd Ian Roberts beth oedd y sefyllfa ynglŷn â hyn a bod sgolopio yn cael effaith mawr ar y nodweddion.

Eglurodd Lucy Kay bod PPMGOaGC wedi gorfod gofyn i CCGC am gyngor. Roedd CCGC wedi awgrymu sefydlu cyfres o ardaloedd caeedig. Rhoddodd CCGC gyngor i'r PPMGOaGC i gadw'r ardal yn gaeedig rhwng Ionawr 1af, a diwedd mis Mai h.y. yn ystod y tymor pysgota.

Mae pysgotwyr sgolopiau wedi rhoi pwysau ar PPMGOaGC i agor darn o Fae Tremadog ar gyfer caglu sgolopiau. Mae CCGC yn y broses o baratoi ymateb.

Ychwanegodd Lucy bod dyddodion heb gael eu hamharu ym Mae Tremadog a'i fod yn gyfoeth o rywogaethau a bydd yn rhaid i CCGC edrych ar effaith casglu sgolopiau ar y nodwedd yma.

Ychwanegodd Ingrid Iredale eu bod fel AP yn cymryd cyngor gan CCGC er yn gyfreithiol nid oes yn rhaid cadw at y cyngor.

7.3 Badau Dŵr Personol – Andy Hall

Gofynnodd Andy Hall beth oedd yn cael ei wneud neu y gellid ei wneud ynglŷn â'r badau dŵr personol.

Eglurodd Barry Davies eu bod yn y broses o ymgynghori â phob grŵp sydd â diddordeb ar y Fawddach. Mae llawer wedi gofyn a ellid gwahardd cychod pŵer o'r Fawddach. Ychwanegodd Barry nad oedd yn credu bod ganddynt yr hawl i wahardd cychod pŵer, dim ond i roi gwaharddiad cyflymder. Bydd cynghorau cymuned lleol yn dod ynghyd i drafod hyn. Mae'r mater wedi cael ei drafod yn y wasg yn aml yn ddiweddar.

Ychwanegodd Barry bod 1, 280 o fadau dŵr personol wedi cael eu cofrestru yn 2005 ac mae yn cynyddu pob blwyddyn. Nid yw rhai yn cydymffurfio â'r rheolau. Mae'r rhifau cofrestru wedi cael eu gwneud yn llawer mwy a'u gosod ar ddwy ochr y bad fel y gellir eu gweld yn hawdd. Mae eu rheoli yn broblem ond mae yn well yn awr nac yr oedd bum mlynedd yn ôl. Heb ddeddfwriaeth mae'n anodd gwneud dim.

Eglurodd Lucy Kay y byddai'n bosibl mynd i'r afael â mater y badau dŵr personol pan fyddai cynllun rheoli yn cael ei ddiweddarau. Y broblem fwyaf yw sŵn felly nid yw'r ACA mor ddefnyddiol gan mai problem fwyaf mewn cysylltiad â'r badau dŵr personol yw ffordd y maent yn amharu ar fwyniant pobl ac nid sut y maent yn effeithio ar nodweddion yr ACA.

Dywedodd Barry Davies y byddai yn hoffi cael cytundeb lleol a bod gwaharddiad gwirfoddol yn cael ei roi yn ei le rhwng pont y rheilffordd a phont y tollborth. Dywedodd hyd yn oed pe byddai ganddynt yr hawl i wahardd cychod y byddai yn anodd iawn i'w oruchwylio gan fod yr aber mor llydan. Ychwanegodd bod y cyfyngiadau cyflymder wedi gweithio yn Aberdyfi.

Datganodd Mike Thrussell ei fod yn bryderus am yr agwedd iechyd a diogelwch. Yn gyffredinol nid yw'r bobl sy'n defnyddio'r badau dŵr personol yn gwybod llawer am y môr ac nid ydynt yn deall ei brosesau ac felly maent yn rhoi eu hunain mewn perygl.

Cytunodd Mike Bowyer eu bod yn beryglus iawn.

7.4 Cysylltiadau gydag Iwerddon – Bill Bracewell

Amlinellodd Bill Bracewell grant Interreg a ddyfarnwyd i Bartneriaeth Aberdyfi. Maent yn gweithio gyda Courttown fel partner Gwyddelig. Bydd y grant yn cael ei ddefnyddio i ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb er mwyn gwella cyfleusterau'r marina. Byddant yn edrych ar yr holl broblemau. Byddant yn adrodd yn ôl i'r grŵp yn yr haf pryd y dylid bod ganddynt lawer o wybodaeth ddefnyddiol.

8. Amser a dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf tua diwedd mis Medi. Dyddiad ac amser i gael eu cyhoeddi.